“Bydd pawb sy’n yfed o’r dŵr hwn yn profi syched eto; ond pwy bynnag sy’n yfed o’r dŵr a roddaf fi iddo, ni bydd arno syched byth.”
(Ioan 4:13-14)

Dyma’r Arglwydd Iesu mewn sgwrs bersonol gyda gwraig o Samariad wrth iddo deithio i Galilea o Jerwsalem. Mae’r sgwrs rhyngddynt wrth ymyl ffynnon Jacob, ac mae’r Arglwydd yn defnyddio’r ffynnon a syched fel darlun o gyflwr ysbrydol y wraig, a’r bodlonrwydd tragwyddol sydd ganddo Ef ar ei chyfer hi, a ninnau hefyd. Wrth edrych ar y darn yma, gallwn weld nifer o agweddau o gymeriad hyfryd ein Gwaredwr.

Iesu’n ufudd

Fe ddywed Ioan fod ‘rhaid’ i Iesu fynd trwy Samaria ar ei daith yn ôl i Galilea. Mae’n sicr mai dyma’r ffordd gyflymaf, er bod dwy ffordd arall i fyny’r gorllewin wrth lan y môr neu i’r dwyrain y tu hwnt i’r Iorddonen. Ond tybed nad yw Ioan yn pwysleisio rheidrwydd arall y tro hwn, sef rheidrwydd ysbrydol Iesu i ddilyn cynlluniau ei Dad nefol. Mae’n dangos yr ufudd-dod yma yn adnod 34 wrth ddweud mai ei fwyd ef oedd gwneud ewyllys ei Dad a’i hanfonodd. O na fyddai gennym ni yr un awydd a’r un syched i ufuddhau i Dduw, ac i ddilyn ei arweiniad yn ein bywyd bob dydd.

Iesu’n tosturio

Mae’r wraig yn cael ei denu at Iesu heb ofn. Mae yntau’n siarad â hi heb ei chondemnio na’i beirniadu. Mae’n gwybod yn iawn am ei hanfoesoldeb, mae’n gwybod beth yw ei chyflwr ysbrydol, ond **“nid i gondemnio’r byd yr anfonodd Duw ei Fab i’r byd, ond er mwyn i’r byd gael ei achub trwyddo ef”** (Ioan 3:18). Mae’n tosturio wrthi yn ei syched a’i hangen ysbrydol dwfn, ac mae ganddo rhywbeth gwell i’w gynnig iddi hefyd. Onid yw’n esiampl wych o’r hyn ddylem ni fod, fel ei bobl, yn ein hagwedd tuag at ein cymdogion di-gred.

‘roedd syched arno yno
am gael eu hachub hwy,
mae syched arno eto
am achub llawer mwy. (Thomas William)

Iesu’n chwalu’r muriau

Roedd y ddadl rhwng yr Iddewon a’r Samariaid yn mynd nôl i’r wythfed ganrif cyn Crist. Meddiannwyd teyrnas ogleddol Israel gan Asyria. Aethpwyd â llawer o’r bobl i Media. Daeth yr Asyriaid â phobloedd eraill i ardal Samaria, pobl o

Babilon, Cutha, Awa, Hamath a Seffarfaim. Dechreuodd yr Israeliaid oedd ar ôl briodi gyda rhai o'r estroniaid hyn. Felly, fe gollon nhw eu purdeb. Ar ben hynny, ddaeth y mwyafrif a gaethgludwyd i Media fyth yn ôl i'w gwlad; dyna'r deg llwyth a gollwyd.

Fodd bynnag, pan gaethgludwyd pobl teyrnas y de i Fabilon, fe gadwon nhw eu hunaniaeth Iddewig. Ac mewn amser, fe ddaethon nhw nôl a dechrau ailadeiladu'r Deml, heb gymorth y Samariaid. Roedd y ddadl wedi ffyrnigo yn amser Manasse ac yn nyddiau'r Macabeaid hefyd. Roedd Iesu, fodd bynnag, yn chwalu'r mur yma.

Hefyd, roedd Iesu'n dymchwel mur arall trwy sgwrsio gyda gwraig. Doedd Rabbi ddim i fod i gyfarch gwraig yn gyhoeddus. Roedd rhai Phariseaid yn cael eu galw'n 'Phariseaid gwaedlyd a briwedig' am eu bod yn cerdded i mewn i waliau wrth gau eu llygaid rhag edrych ar wragedd yn gyhoeddus.

Iesu'n torri syched

Mewn ffordd arbennig a thyner iawn, mae Iesu'n delio â syched ysbrydol y wraig. Mae'n gofyn am ddŵr, ac yn mynd ymlaen i gynnig i'r wraig y dŵr bywiol. Gallwn nodi tri pheth am y dŵr bywiol:

Mae'n torri syched am byth, hynny yw, mae'n rhoi bodlonrwydd parhaol. Unwaith mae person yn dod yn grediniwr, mae'n grediniwr am byth. Unwaith mae un wedi ei aileni, mae wedi ei aileni am byth. Mae dŵr naturiol ond yn torri syched am gyfnod.

Mae'n mynd i'r enaid ac mae'n aros y tu mewn, fel ffynhonnell bodlonrwydd ac adnewyddiad. Dyw dŵr naturiol ddim yn cyffwrdd yr enaid nac yn bodloni ei anghenion chwaith.

Mae'n ffynnon i barhau. Dyw hi ddim yn sychu. Mae'n cynnal dyn ar y ddaear, gyda golwg ar fywyd tragwyddol. Mae dŵr naturiol yn sychu, mae'n diflannu wrth ei yfed, a rhaid mynd i geisio rhagor o hyd.

Mae Iesu'n galw'r wraig i berthynas ag Ef, mae'n ei gyflwyno'i hun fel y Meseia, oherwydd Ef yw'r un sydd yn gallu rhoi'r ffynnon o fywyd tragwyddol yn ein heneidiau.

Iesu, ti yw ffynnon bywyd,
bywyd dedwydd i barhau;
pob rhyw gysur is y nefoedd
ynot ti dy hun y mae:
ni all croes na gwae na chystudd
wneuthur niwed iddynt hwy
gafodd nerth i wneud eu noddfa
yn dy ddwyfol, farwol glwy'. (Pantycelyn).